Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymdrin â rhoi cyfeiriad i staff ym maes lletygarwch a’u hysgogi a’u cynorthwyo i gyflawni amcanion y tîm a’u hamcanion gwaith personol. Mae’r safon hon i staff ym maes lletygarwch sydd â chyfrifoldebau arwain tîm, rheoli llinell gyntaf neu oruchwylio.

Mae arweinwyr rhagorol yn cael y gorau o’u pobl. Nid ydyn nhw’n canolbwyntio ar yr hyn na all aelodau o’r tîm ei wneud, ond yn hytrach ar yr hyn y gallan nhw ei wneud! Mae arweinwyr cryf yn rhoi cyfeiriad clir, gan greu ymdeimlad o bwrpas cyffredin, er mwyn i bawb ddeall ei amcanion ei hun ac amcanion y tîm. Fodd bynnag, nid dyna’r cwbl. Mae arweinwyr effeithiol yn sicrhau bod amser ar gael i gynorthwyo eu tîm. Gwerthoedd fel uniondeb, tegwch, parch a pharodrwydd i helpu yw popeth iddyn nhw.

Yn anad dim, efallai, mae’r arweinwyr gorau yn cymryd cyfrifoldeb personol dros wneud i bethau ddigwydd, ond maen nhw’n cyflawni’r canlyniadau gorau trwy gynorthwyo, grymuso a datblygu eu timau.

Pan fyddwch wedi cwblhau’r safon hon byddwch yn gallu dangos eich dealltwriaeth o’r canlynol, a’ch gallu i’w gyflawni:

- Rhoi arweiniad i’ch tîm

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. Cyfleu diben ac amcanion y tîm i'w holl aelodau
2. Cynnwys yr aelodau yn y gwaith o gynllunio sut y bydd y tîm yn cyflawni ei amcanion
3. Sicrhau bod gan bob aelod o'r tîm amcanion gwaith personol a'i fod yn deall sut y bydd cyflawni'r rhain yn cyfrannu at gyflawni amcanion y tîm
4. Annog a chynorthwyo aelodau'r tîm i gyflawni eu hamcanion gwaith personol ac amcanion y tîm a rhoi cydnabyddiaeth pan gaiff amcanion eu cyflawni
5. Trwy eich perfformiad chi, ennill ymddiriedaeth a chefnogaeth y tîm i'ch arweinyddiaeth
6. Llywio'r tîm yn llwyddiannus trwy anawsterau a heriau, gan gynnwys problemau sy'n ymwneud â gwrthdaro, amrywiaeth a chynhwysiant yn y tîm
7. Hybu a chydnabod creadigrwydd ac arloesedd yn y tîm
8. Rhoi cefnogaeth a chyngor i aelodau'r tîm pan mae arnyn nhw eu hangen, yn arbennig yn ystod cyfnodau pan geir problemau a newidiadau
9. Ysgogi aelodau'r tîm i gyflwyno eu syniadau eu hunain a gwrando ar yr hyn maen nhw'n ei ddweud
10. Annog aelodau'r tîm i gymryd yr awenau pan fo ganddyn nhw'r wybodaeth a'r arbenigedd i wneud hynny, a dangos eich bod yn fodlon dilyn yr arweiniad hwn

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. Gwahanol ffyrdd o gyfathrebu'n effeithiol ag aelodau o dîm
2. Sut i osod amcanion CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol)
3. Sut i gynllunio'r gwaith o gyflawni amcanion y tîm a phwysigrwydd cynnwys aelodau'r tîm yn y broses hon
4. Pwysigrwydd dangos i aelodau'r tîm sut mae amcanion gwaith personol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y tîm, a'r gallu i wneud hyn
5. Bodolaeth dulliau arwain gwahanol
6. Sut i ddewis a defnyddio'n llwyddiannus nifer gyfyngedig o ddulliau gwahanol o ysgogi, cynorthwyo ac annog aelodau'r tîm a chydnabod eu cyflawniadau
7. Mathau o anawsterau a heriau a all godi, gan gynnwys problemau sy'n ymwneud â gwrthdaro, amrywiaeth a chynhwysiant yn y tîm a ffyrdd o'u hadnabod a'u goresgyn
8. Pwysigrwydd annog pobl eraill i gymryd yr awenau a ffyrdd y gellir cyflawni hyn
9. Buddion annog a chydnabod creadigrwydd ac arloesedd mewn tîm, a sut i wneud hyn
10. Gofynion cyfreithiol, rheoliadol a moesegol yn y diwydiant/sector
11. Aelodau, diben, amcanion a chynlluniau eich tîm
12. Amcanion gwaith personol aelodau o'ch tîm
13. Y mathau o gymorth a chyngor mae'n debygol y bydd eu hangen ar aelodau'r tîm a sut i ymateb i'r rhain
14. Safonau perfformiad ar gyfer gwaith eich tîm

Ymddygiadau

1. Rydych yn creu ymdeimlad o bwrpas cyffredin
2. Rydych yn cymryd cyfrifoldeb personol dros wneud i bethau ddigwydd
3. Rydych yn annog ac yn cynorthwyo pobl eraill i wneud penderfyniadau'n annibynnol
4. Rydych yn gweithredu o fewn terfynau eich awdurdod chi
5. Rydych yn sicrhau bod amser ar gael i gynorthwyo pobl eraill
6. Rydych yn dangos uniondeb, tegwch a chysondeb wrth wneud penderfyniadau
7. Rydych yn ceisio deall anghenion ac ysgogiadau pobl
8. Rydych yn modelu ymddygiad sy'n dangos parch, parodrwydd i helpu a chydweithrediad

Cysylltiadau â SGC eraill

Mae'r safon hon yn gysylltiedig â'r holl safonau eraill yng nghyfres safonau Lletygarwch Goruchwylio ac Arwain

PPLHSL1

Rhoi arweiniad i'ch tîm

Datblygwyd gan	People 1st
Dyddiad cymeradwyo	01 Chwef 2016
Dyddiad Adolygu Dangosol	01 Maw 2021
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Canolfan Safonau Rheoli
RCU gwreiddiol	Uned B5
Galwedigaethau perthnasol	Arweinydd Tîm, Goruchwyliwr
Cyfres/Set	Lletygarwch Goruchwylio ac Arwain
Geiriau Allweddol	arweiniad, tîm